11.09.2026

# CYLCHLYTHYR GLAN CEUBAL

@ysgolglanceubal Gwefan/Website: www.ysgolglanceubal.cymru



**CLYBIAU AR ÔL YSGOL**

Mae ein clybiau ar ôl ysgol wedi cychwyn unwaith eto, ac mae wedi bod yn hyfryd gweld cymaint o frwdfrydedd a chyffro ymhlith y disgyblion. Mae'r clybiau yn cynnig cyfle gwych i'n plant ddatblygu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar weithgareddau gwahanol a mwynhau amser ychwanegol gyda'u ffrindiau.

Hoffwn ddiolch o galon i'r holl aelodau o staff, rhieni a chyn ddisgyblion sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni yn wirfoddol i wneud y clybiau hyn yn bosibl. Mae eich ymroddiad yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Rydym bob amser yn croesawu gwirfoddolwyr newydd. Os oes gennych sgil, diddordeb neu ychydig o amser yr hoffech ei rannu gyda'n disgyblion, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

**NOSON GROESO – DYDD LLUN, 21 MEDI**

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu rhieni a gofalwyr i'n Noson Groeso ddydd Llun, 21 Medi.

Mae hon yn gyfle gwerthfawr i chi gwrdd ag athro/athrawes eich plentyn, ymweld â'r ystafell ddosbarth a chael cipolwg ar y dysgu, y profiadau a'r cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eich plentyn yn ystod y tymor hwn.

Mae'r sesiynau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6. Bydd aelodau o staff ar gael i oruchwylio unrhyw blant yn y neuadd tra bydd y sesiynau'n cael eu cynnal.



**¡LLEISIAU'R DISGYBLION – EIN CYNGHORAU A'N HARWEINWYR**

Mae'n gyfnod cyffrous i'n disgyblion wrth i ni baratoi ar gyfer etholiadau blynyddol ein cynghorau a'n grwpiau llais disgyblion, a gynhelir yr wythnos nesaf.

Bydd disgyblion Blwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn cael cyfle i enwebu eu hunain ar gyfer swyddi a chyfrifoldebau pwysig ar draws ein gwahanol grwpiau: Cyngor yr Ysgol, Cyngor Eco, Cyngor Lles, y Dewiniaid Digidol, Arweinwyr Chwaraeon a Chriw'r Gymraeg. Bydd disgyblion Blwyddyn 6 hefyd yn cael cyfle i ymgeisio am swyddi fel Swyddogion yr Ysgol.

Mae'r grwpiau hyn yn rhoi llais go iawn i'n disgyblion ac yn eu galluogi i chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Byddant yn cael cyfle i rannu syniadau, cyfrannu at benderfyniadau, helpu i gynllunio gweithgareddau a datblygu eu sgiliau arwain a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb.

Edrychwn ymlaen at weld pwy fydd yn camu ymlaen i gynrychioli eu cyd-ddisgyblion eleni!



**DYDDIADAU PWYSIG I'W COFIO**

**Wrth i ni edrych ymlaen at weddill tymor yr Hydref, dyma rai dyddiadau pwysig i'w nodi yn eich calendrau:**

**- 14–18 Medi – Wythnos etholiadau'r cynghorau newydd**

**- 21 Medi – Noson Groeso (mwy o fanylion ar wahan)**

**- 25 Medi – Diwrnod STEM – Blwyddyn 6 yng Nglantaf**

**- 30 Medi – Diwrnod lluniau unigol Colorfoto**

**- 5–9 Hydref – Wythnos Lles: Iechyd Meddwl a Lles Meddyliol**

**- 7 Hydref – Diwrnod HMS y Clwstwr – bydd yr ysgol ar gau i bob disgybl**

**- 8 Hydref – Noson Agored Plasmawr**

**- 15 Hydref – Dathlu Diwrnod Siwdmae gyda pherfformiad gan Mei Gwynedd (mwy o fanylion i ddod)**

**- 19 Hydref – Brechiadau ffliw: Derbyn–Blwyddyn 5**

**- 19–23 Hydref – Ymweliad preswyl Blwyddyn 6 â Llangrannog**

**- 23 Hydref–2 Tachwedd – Gwyliau hanner tymor**

**Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i rannu unrhyw ddiweddariadau a dyddiadau ychwanegol gyda chi wrth i'r tymor fynd rhagddo.**

RYDYM YN FALCH IAWN O RANNU BOD EIN CYFRADD PRESENOLDEB WYTHNOSOL WEDI CYRRAEDD 94.2% – GWYCH!

11.09.2026

# GLAN CEUBAL NEWSLETTER

@ysgolglanceubal Website: www.ysgolglanceubal.cymru



**AFTER-SCHOOL CLUBS**

Our after-school clubs have started again, and it has been wonderful to see such enthusiasm and excitement from our pupils. The clubs provide a fantastic opportunity for children to develop new skills, try different activities and enjoy additional time with their friends.

I would like to say a heartfelt thank you to all members of staff, parents and past pupils who generously give their time and energy on a voluntary basis to make these clubs possible. Your commitment is very much appreciated.

We are always keen to hear from new volunteers. If you have a skill, interest or simply some time that you would like to share with our pupils, we would love to hear from you.

**WELCOME EVENING – MONDAY 21 SEPTEMBER**

We are looking forward to welcoming parents and carers to our Welcome Evening on Monday 21 September.

This is a valuable opportunity for you to meet your child's teacher, visit their classroom and gain an insight into the learning, experiences and opportunities planned for your child during this term.

The sessions are for pupils from Year 1 to Year 6. Members of staff will be available to supervise any children in the hall while the sessions are taking place.



**PUPIL VOICE – OUR COUNCILS AND LEADERS**

It is an exciting time for our pupils as we prepare for the annual elections for our pupil voice groups, which will take place next week.

Pupils from Year 2 to Year 6 will have the opportunity to nominate themselves for important roles and responsibilities across our different groups: School Council, Eco Council, Wellbeing Council, Digital Leaders, Sports Leaders and the Welsh Crew. Year 6 pupils will also have the opportunity to apply for positions as School Officers.

These groups give our pupils a genuine voice and enable them to play an active role in school life. They will have opportunities to share ideas, contribute to decisions, help plan activities and develop their leadership skills and sense of responsibility.

We are looking forward to seeing which pupils step forward to represent their fellow pupils this year!



**IMPORTANT DATES FOR YOUR DIARY**

**As we look ahead to the rest of the autumn term, please make a note of these important dates:**

**- 14–18 September – New council election week**

**- 21 September – Welcome Evening (more information to follow)**

**- 25 September – STEM Day – Year 6 at Glantaf**

**- 30 September – Individual school photographs with Colorfoto**

**- 5–9 October – Wellbeing Week: Mental Health and Emotional Wellbeing**

**- 7 October – Cluster INSET Day – school will be closed to all pupils**

**- 8 October – Plasmawr Open Evening**

**- 15 October – Celebrating Siwdmae Day with a performance by Mei Gwynedd (more information to follow)**

**- 19 October – Flu vaccinations: Reception–Year 5**

**- 19–23 October – Year 6 residential visit to Llangrannog**

**- 23 October–2 November – Half-term holiday**

**We will, of course, continue to share any additional updates and important dates with you as the term progresses.**

WE ARE DELIGHTED TO SHARE THAT OUR WEEKLY ATTENDANCE FIGURE HAS REACHED 94.2% – FANTASTIC!